**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (Y STRYD FAWR A SGWÂR OWAIN GLYNDŴR, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn i hwyluso'r gwaith o gynnal Parêd Gŵyl Dewi ar gefnffordd yr A487 yn Aberystwyth yn Sir Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, (ac eithrio cerbydau'r digwyddiad, gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau brys) rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd y Bont a Heol y Wig hyd at ei chyffordd â Ffordd y Môr a Rhodfa'r Gogledd.

Gwaherddir pob cerbyd rhag defnyddio'r lleoedd llwytho a dadlwytho yn ystod y cyfnod cau.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n mynd tua'r gogledd y bydd cau'r gefnffordd yn effeithio arno fydd mynd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Dan Dre a Ffordd Alexandra, yna troi i'r chwith i Ffordd y Môr a pharhau hyd at ei chyffordd â Rhodfa'r Gogledd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau yn weithredol rhwng 13:00 o'r gloch a 14:00 o'r gloch ar 2 Mawrth 2024 am gyfnod nad yw'n hwy na 15 munud.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (GREAT DARKGATE STREET AND OWAIN GLYNDWR SQUARE, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the holding of the St David's Day Parade on the A487 trunk road at Aberystwyth in the County of Ceredigion.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than event, public service and emergency service vehicles) from proceeding on the length of the trunk road known as Great Darkgate Street and Owain Glyndwr Square that extends from its junction with Bridge Street and Pier Street to its junction with Terrace Road and North Parade.

All vehicles will be prohibited from using the loading and unloading bays during the closure period.

The alternative route for northbound traffic affected by the closure will be to proceed in a north-easterly direction on Mill Street and Alexandra Road, then turn left onto Terrace Road and continue to its junction with North Parade.

It is expected that the prohibitions will operate between 13:00 hours and 14:00 hours on 2 March 2024 for a period not exceeding 15 minutes.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government